



CYNGOR TREF DINBYCH



POLISI GWARIANT O DAN ADRAN 137

Deddf Llywodraeth Leol 1972

Blwyddyn Ariannol 2026–2027

Dyddiad Mabwysiadu:

Dyddiad Adolygu Nesaf:

Swyddog Cyfrifol: Clerc y Dref / Swyddog Cyllid Cyfrifol

1. PWRPAS

Mae'r polisi hwn yn nodi dull Cyngor Tref Dinbych o ymdrin â gwariant a wneir o dan **Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972**.

Mae Adran 137 yn rhoi pŵer cyfyngedig i Gyngorau Cymuned a Thref i ysgwyddo gwariant at ddibenion penodol lle nad oes pŵer statudol penodol arall ar gael, ar yr amod bod gofynion statudol Adran 137 yn cael eu bodloni.

Diben y polisi hwn yw sicrhau bod unrhyw wariant a wneir o dan Adran 137 yn gyfreithlon, yn dryloyw, wedi'i awdurdodi'n briodol, yn gymesur ac yn cael ei gofnodi'n gywir.

2. SAIL GYFREITHIOL

Mae Adran 137(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu i Gyngor Cymuned neu Dref ysgwyddo gwariant sydd, ym marn y Cyngor:

- er budd ei ardal, neu unrhyw ran ohoni, ac a fydd yn dod â budd uniongyrchol i'r ardal honno; neu
- er budd rhai neu'r cyfan o drigolion ei ardal, ac a fydd yn dod â budd uniongyrchol i'r trigolion hynny,

Ile nad oes gan y Cyngor bŵer statudol penodol arall i ysgwyddo'r gwariant hwnnw.

Rhaid i'r budd a geir fod yn gymesur â'r gwariant a wneir.

Mae Adran 137(3) hefyd yn caniatáu gwariant at ddibenion elusennol a dibenion eraill penodol, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r ddeddfwriaeth.

Ni ddylid defnyddio Adran 137 lle mae gan y Cyngor bŵer statudol arall eisoes sy'n awdurdodi'r gwariant arfaethedig.

3. TERFYN GWARIANT ADRAN 137 AR GYFER 2026–2027

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau mai'r swm priodol at ddibenion Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru ym mlwyddyn ariannol 2026–2027 yw **£11.60 fesul etholwr**.

Mae hyn yn gynydd o £11.10 fesul etholwr yn 2025–2026.

Felly, cyfrifir yr uchafswm sydd ar gael i Gyngor Tref Dinbych o dan Adrannau 137(1) a 137(3) yn ystod 2026–2027 fel a ganlyn:

Nifer yr etholwyr × £11.60

Y nifer o etholwyr a ddefnyddir ar gyfer y cyfrifiad hwn fydd y ffigur etholiadol perthnasol sy'n gymwys at ddibenion Adran 137 a'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r cyfrifiad.

Bydd y Swyddog Cyllid Cyfrifol yn cyfrifo ac yn cofnodi terfyn gwariant Adran 137 y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol ac yn monitro'r gwariant yn erbyn y terfyn hwnnw.

4. PWERAU CYFFREDINOL CYMHWYSEDD

Cyflwynodd **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** Bŵer Cyffredinol Cymhwysedd ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref cymwys yng Nghymru, gyda'r darpariaethau perthnasol yn dod i rym ar 5 Mai 2022.

Nid yw Cyngor Cymuned neu Dref cymwys sy'n arfer y Pŵer Cyffredinol Cymhwysedd yn ddarostyngedig i derfyn gwariant Adran 137 wrth weithredu o dan y pŵer cyffredinol hwnnw, er bod amodau a gofynion statudol ar wahân yn gymwys.

Yn unol â hynny, cyn dosbarthu gwariant fel gwariant Adran 137, bydd Clerc y Dref/Swyddog Cyllid Cyfrifol yn ystyried a yw:

1. gan y Cyngor bŵer statudol penodol i ysgwyddo'r gwariant;
2. gan y Cyngor hawl i ddibynnu ar y Pŵer Cyffredinol Cymhwysedd ac a yw'r pŵer hwnnw'n briodol yn yr amgylchiadau; neu
3. Adran 137 yw'r pŵer statudol priodol.

Dylid nodi'r pŵer statudol y dibynnir arno lle bynnag y bo hynny'n rhesymol ymarferol pan awdurdodir gwariant.

5. AMODAU AR GYFER GWARIANT ADRAN 137

Cyn awdurdodi gwariant o dan Adran 137(1), rhaid i'r Cyngor fod yn fodlon:

- nad oes unrhyw bŵer statudol penodol arall ar gael i awdurdodi'r gwariant;
- bod y gwariant er budd ardal y Cyngor, rhan o'i ardal, neu rai neu'r cyfan o'i drigolion;

- bod budd uniongyrchol clir ac adnabyddadwy i'r ardal neu ei thrigolion;
- bod y budd yn gymesur â'r swm y bwriedir ei wario;
- bod y gwariant o fewn terfyn gwariant blynyddol Adran 137 sydd ar ôl i'r Cyngor; a
- bod y gwariant yn cydymffurfio â Rheoliadau Ariannol, Rheolau Sefydlog, trefniadau cyllidebol ac unrhyw bolisiau perthnasol eraill y Cyngor.

Ni ddylid defnyddio Adran 137 dim ond oherwydd ei bod yn gyfleus yn weinyddol pan fo pŵer statudol priodol arall ar gael.

6. BUDD I'R GYMUNED

Wrth ystyried gwariant o dan Adran 137, bydd y Cyngor yn nodi'r budd y disgwylir iddo ddeillio o'r gwariant.

Dylai'r Cyngor ystyried:

- pwy fydd yn elwa;
- faint o drigolion, neu ba ran o ardal y Cyngor, sy'n debygol o elwa;
- natur a maint y budd;
- a yw'r budd yn uniongyrchol yn hytrach nag yn bell neu'n anuniongyrchol; ac
- a yw'r swm arfaethedig yn rhesymol ac yn gymesur â'r budd hwnnw.

Ni fydd y Cyngor yn ysgwyddo gwariant Adran 137 lle mae'r budd i'r ardal neu ei thrigolion yn ddibwys neu'n anghymesur â'r gwariant arfaethedig.

7. GRANTIAU A RHODDION

Pan fydd y Cyngor yn cynnig darparu cymorth ariannol i sefydliad cymunedol, elusen, sefydliad gwirfoddol neu gorff arall, bydd Clerc y Dref/Swyddog Cyllid Cyfrifol yn nodi'r pŵer statudol priodol cyn awdurdodi'r taliad.

Pan ddibynnir ar Adran 137, rhaid i'r Cyngor fod yn fodlon bod y gofynion statudol wedi'u bodloni.

Gall ceisiadau am gymorth ariannol hefyd fod yn ddarostyngedig i **Bolisi Grantiau'r Cyngor** ar wahân a'r trefniadau cysylltiedig ar gyfer gwneud cais a monitro.

Nid yw cymeradwyo grant o dan Bolisi Grantiau'r Cyngor, ynddo'i hun, yn darparu'r pŵer cyfreithiol i wneud y taliad. Rhaid nodi'r pŵer statudol priodol hefyd.

8. AWDURDODI

Rhaid awdurdodi'r holl wariant o dan Adran 137 yn briodol yn unol â Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol a Chynllun Dirprwyo cymeradwy'r Cyngor, lle bo hynny'n berthnasol.

Pan wneir penderfyniad gan y Cyngor neu Bwyllgor, dylai'r cofnodion nodi'n glir bod y gwariant wedi'i awdurdodi o dan **Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972**.

Lle bo'n briodol, dylai'r cofnod hefyd nodi:

- y swm a awdurdodwyd;
- derbynnydd neu ddiben y gwariant;
- y budd cymunedol a nodwyd; a
- chadarnhad bod y gwariant o fewn terfyn Adran 137 sydd ar gael i'r Cyngor.

9. COFNODION ARIANNOL

Bydd y Swyddog Cyllid Cyfrifol yn cadw cofnod priodol o'r holl wariant a wneir o dan Adran 137.

Dylai'r cofnod gynnwys, o leiaf:

- dyddiad cymeradwyo;
- cyfeirnod y cofnodion neu awdurdod arall;
- derbynnydd/talai;
- diben y gwariant;
- swm;
- y pŵer statudol y dibynnir arno;
- disgrifiad byr o'r budd cymunedol; a
- cyfanswm cronol gwariant Adran 137 ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Bydd gwariant Adran 137 yn adnabyddadwy ar wahân yng nghofnodion cyfrifyddu'r Cyngor lle bo angen.

10. MONITRO'R TERFYN BLYNYDDOL

Bydd y Swyddog Cyllid Cyfrifol yn monitro cyfanswm cronol gwariant Adran 137 drwy gydol y flwyddyn ariannol er mwyn sicrhau nad eir y tu hwnt i'r terfyn statudol.

Ar gyfer 2026–2027, uchafswm gwariant y Cyngor fydd:

£11.60 × nifer perthnasol yr etholwyr (6,745) = £78,242.00

Ni ddylai cyfanswm y gwariant a ysgwyddir o dan Adrannau 137(1) a 137(3) fod yn fwy na'r uchafswm statudol sy'n gymwys i'r Cyngor.

Bydd yr Aelodau'n cael gwybod os yw'r gwariant yn agosáu at y terfyn blynyddol.

11. CYFRIFOLDEB AELODAU

Dylai Cynghorwyr sicrhau bod gwariant a gynigir o dan Adran 137 yn bodloni'r gofynion statudol cyn pleidleisio i'w gymeradwyo.

Dylai'r Aelodau ystyried:

A oes pŵer statudol arall ar gael?

Os oes, dylid defnyddio'r pŵer hwnnw fel arfer.

A oes budd uniongyrchol i ardal y Cyngor neu ei thrigolion?

Dylai'r budd fod yn adnabyddadwy.

A yw'r gwariant yn gymesur â'r budd hwnnw?

Dylai'r Cyngor allu dangos bod y gwariant yn ddefnydd rhesymol o arian cyhoeddus.

A oes digon o gapasiti Adran 137 ar gael?

Dylai'r Swyddog Cyllid Cyfrifol gadarnhau na fydd y gwariant arfaethedig yn achosi i'r terfyn statudol blynyddol gael ei ragori.

12. RÔL CLERC Y DREF / SWYDDOG CYLLID CYFRIFOL

Bydd Clerc y Dref/Swyddog Cyllid Cyfrifol yn:

- cyngori'r Cyngor ynghylch y pŵer statudol priodol ar gyfer gwariant arfaethedig;
- cadw cofnodion priodol o wariant Adran 137;
- cyfrifo terfyn gwariant blynyddol Adran 137;
- monitro gwariant yn erbyn y terfyn hwnnw;
- sicrhau bod taliadau'n cael eu cofnodi'n briodol yng nghyfrifon y Cyngor;
- cyngori'r Aelodau lle na fydd gwariant arfaethedig o bosibl yn bodloni'r gofynion statudol; a
- sicrhau bod y Cyngor yn ystyried canllawiau a therfynau statudol diweddaraf Llywodraeth Cymru.

Nid yw unrhyw beth yn y polisi hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Glerc y Dref/Swyddog Cyllid Cyfrifol brosesu gwariant y mae'n rhesymol iddo/iddi ei ystyried yn anghyfreithlon.

13. ARIAN CYHOEDDUS A GWERTH AM ARIAN

Mae Adran 137 yn bŵer gwariant statudol ac ni ddylid ei hystyried yn gronfa ddisgresiynol gyffredinol.

Mae'r holl wariant yn parhau i fod yn wariant o arian cyhoeddus ac felly rhaid iddo ddangos llywodraethu, atebolrwydd a gwerth am arian priodol.

Bydd y Cyngor yn cymhwyso'r un safonau o ran rheolaeth ariannol, tryloywder a chraffu i wariant Adran 137 ag y mae'n eu cymhwyso i wariant a wneir o dan unrhyw bŵer statudol arall.

14. ADOLYGU

Fel arfer, adolygir y polisi hwn yn flynyddol, neu'n gynharach os:

- bydd deddfwriaeth yn newid;
- bydd canllawiau Llywodraeth Cymru yn newid;
- bydd y swm priodol statudol ar gyfer Adran 137 yn newid;
- bydd y Cyngor yn dod yn gymwys, neu'n peidio â bod yn gymwys, i arfer y Pŵer Cyffredinol Cymhwysedd; neu
- bydd y Cyngor yn nodi bod angen diwygio ei drefniadau llywodraethu ariannol.

Bydd y terfyn ariannol yn y polisi hwn yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol yn dilyn hysbysiad Llywodraeth Cymru ynghylch y swm priodol.

15. COFNOD RHEOLI ADRAN 137 2026–2027

Swm priodol Llywodraeth Cymru: £11.60 fesul etholwr

Nifer perthnasol yr etholwyr: 6,745

Uchafswm gwariant Adran 137 ar gyfer 2026–2027: £78,242.00

Mabwysiadwyd gan Gyngor Tref Dinbych ar: _____

Llofnod: _____

Maer y Dref / Cadeirydd

Llofnod: _____

Clerc y Dref / Swyddog Cyllid Cyfrifol